

Cynhaliwyd Cyfarfod o Bell o Gyngor Cymuned Talylychau trwy Gynhadledd fideo/ffôn nos Fawrth 7 Gorffennaf 2020 am 8pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Trwy fideo – Janine Roberts (Cadeirydd), Sarah Walters, Steve Haines, y C. S. Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Dros y Ffôn – Marged Bowen a John Williams.

Ymddiheuriadau: Pauline George a Rhys Williams.

Datganiad Derbyn fel Cynghorydd. Darllenodd Steve Haines y datganiad ac yna ei lofnodi.

Datganiadau o Fuddiant. Jane Morgan Clerc. Eitem 6 Cyflog y Clerc.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod 02.06.2020 yn gywir.

Materion sy'n codi.

Parcio yn achosi rhwystr ar y palmant yn Nyffryn Ig. Yn dilyn ateb a gafwyd gan yr Adran Priffyrdd yn cynghori na allai gymryd unrhyw gamau o dan y Ddeddf Priffyrdd, cytunwyd i ddilyn y cyngor a dwyn y mater i sylw'r Heddlu.

Graddfa Gyflog Clercod. Yn unol â'r cais, anfonwyd at y Cynghorwyr trwy neges e-bost cyn y cyfarfod.

Gadawodd y Clerc, Jane Morgan, y cyfarfod.

Cytunwyd i gynyddu'r taliad misol o £190.66 gros i £211.08 gros. Cynnydd o £20.42 y mis ac wedi'i ôl-ddyddio i daliad mis Mehefin. (ychwanegu £40.84 at daliad mis Awst ar gyfer taliadau mis Mehefin a mis Gorffennaf).

Daeth y Clerc, Jane Morgan, yn ei hôl i'r cyfarfod.

Cyfriflenni Banc Diweddaraf. Cytunwyd i'w hanfon at y Cynghorwyr trwy neges e-bost.

Balans y cyfrif ar 28.05.2020 oedd £5,556.27. Yn cynnwys praesept o £3,333.34 a dalwyd i mewn ar 29.04.2020.

Balans y cyfrif ar 26.06.2020 oedd £5,205.96. Yn cynnwys ad-daliad TAW o £395.35 a dalwyd i mewn ar 11.06.2020.

Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

Cyflog y Clerc £152.46. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £38.20.

Treuliau Clerc y Fynwent £10.00. Torri Glaswellt y Fynwent M & J Maintenance £500.00. Cytunwyd y dylid rhoi goddefeb i'r Cadeirydd, Janine Roberts a'r Is-gadeirydd, Sarah Walters er mwyn talu'r sieciau canlynol ym mis Awst. Cyflog y Clerc. CThEM. Torri Glaswellt y Fynwent yn dilyn archwiliad. (Yna gall 2 lofnodwr awdurdodedig lofnodi'r sieciau fel arfer).

Gohebiaeth a gafwyd trwy'r post ac e-bost wedi'u hanfon at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod trwy neges e-bost.

Cafwyd neges e-bost yn cynghori bod y Gymuned yn llunio Cylchlythyr. Cytunwyd i ychwanegu Hysbysiad y Wefan.

Llythyr oddi wrth Fanc Lloyds yn cadarnhau bod siec rhif 001041 wedi cael ei stopio yn unol â'r cais am nad oedd enw'r taledig yn gywir. Rhoddwyd siec newydd rhif 001043.

Trafodwyd y canlynol: Tref Llandeilo – Apêl Covid 19. Cytunwyd i ofyn am ragor o fanylion.

Ysgol y Cwm. Ysgol Gymraeg ym Mhatagonia. Cafwyd llythyr yn gofyn am gymorth. Cytunwyd ar rodd o £50.00.

Anfonwyd y canlynol at y Cynghorwyr trwy neges e-bost i'w harchwilio a'u derbyn. Rheolau Sefydlog. Rheoliadau Ariannol. Asesiad Risg. Cod Ymddygiad. Cytunwyd i dderbyn y rhain.

Nid oedd unrhyw Gynllunio.

Archwiliad Blynyddol Mynwent yr Eglwys. Cytunodd Janine Roberts (Cadeirydd) a Marged Bowen i'w gyflawni o dan yr amgylchiadau presennol.

Nid oedd unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben am 9.35pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 1 Medi 2020 am 8pm.